

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgyrchu ac ymgymryd â gwaith hyrwyddo ynghylch buddiannau unigolion yn y gymuned. Mae'n cynnwys y gwaith sydd ei angen i esbonio hawliau a rolau unigolion yn y gymuned ac yn mynd i'r afael â'r ffordd y gall unigolion eu hunain fod yn rhan o gynrychioli eu buddiannau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1.
hyrwyddo hawliau sydd o fewn fframweithiau statudol, cyfreithiol a sefydliadol, gan ddefnyddio dulliau sy'n gyson â'ch rôl
2.
hyrwyddo hawliau a fydd yn cefnogi anghenion y rhai sydd mewn perygl neu mewn angen yn y gymuned
3.
hysbysu'r rhai sydd mewn perygl neu y mae angen eu hawliau arnynt yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
4.
hyrwyddo hawliau sy'n dderbyniol i bawb sy'n cymryd rhan ac sy'n diwallu anghenion unigolion
5.
monitro effaith y dulliau a ddefnyddir ac addasu eich dull yn ôl yr angen
6.
gweithio gydag unigolion i werthuso eu hawliau a'u buddiannau mewn perthynas â buddiannau eraill, gan sicrhau bod eu hawliau'n gyson â gofynion cyfreithiol a sefydliadol
7. archwilio effaith mynd ar drywydd hawliau a buddiannau gydag unigolion ar eraill
 1.
darparu gwybodaeth i unigolion, gan sicrhau ei bod yn berthnasol ac o fewn ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt
 2.
darparu cefnogaeth ac anogaeth i unigolion sy'n eu helpu i fynegi eu hunain yn glir, yn rhesymegol ac yn gadarn, ac yn parchu eu hawliau a'u buddiannau
 3.
rhoi gwybod i unigolion am yr holl drefniadau, protocolau neu ofynion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
 4.
rhoi gwybod i unigolion am ffynonellau perthnasol o gymorth a chefnogaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
 5.
darparu cymorth i deuluoedd, ffrindiau a chysylltiadau cymunedol yr unigolyn, pan

Hyrwyddo buddiannau unigolion yn y gymuned

fyddant yn gweithio i gefnogi buddiannau'r unigolyn

6.

trafod rhwystrau rhag buddiannau'r unigolyn a datblygu dulliau o ddelio â nhw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

7.

adolygu cynrychiolaeth yr unigolyn o'i hawliau a'i fuddiannau, a darparu adborth adeiladol ynghylch unrhyw welliannau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'ch sefydliad ei hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
2. pwysigrwydd cadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer
3. rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gweithio gyda gwahanol sefydliadau a chymunedau gan gynnwys ffiniau y cytunwyd arnynt
4. pŵer ac awdurdod proffesiynau perthnasol, cleientiaid, gofalwyr, preswylwyr a'r gymuned leol, sy'n berthnasol i hyrwyddo buddiannau unigolion yn y gymuned
5. egwyddorion cyfle cyfartal mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau
6. egwyddorion cyfiawnder adferol
7. asiantaethau sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar hawliau, gan gynnwys cylch gwaith a chyfrifoldebau sefydliadau wrth drafod a chymodi
8. dulliau o ddelio â gormes, anfantais a gwahaniaethu a'u heffeithiolrwydd cymharol
9. sut y gall gwahaniaethu unigol a strwythurol danseilio ac eithrio pobl rhag arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau
10. gwrthdaro posibl rhwng hawliau a chyfrifoldebau unigolion a'r rhai yn y gymuned ehangach
11. cysyniadau grymuso, eiriolaeth, hawliau dynol a sifil
12. cynlluniau ar gyfer hyfforddi'r rhai sy'n hyrwyddo buddiannau unigolion, gan gynnwys hunaneiriolaeth ac eiriolaeth gymunedol a ffynonellau cymorth lleol a chenedlaethol

13.

ffactorau sy'n effeithio ar yr unigolyn tuag at hyrwyddo a chynrychioli ei fuddiannau a'i hawliau ei hun, a rhwystrau posibl rhagddo'n gwneud hyn

14.

gofynion gwybodaeth ac adnoddau sydd ar gael i unigolion wrth gynrychioli eu hunain a'u buddiannau

15.

sut i gyfathrebu ag unigolion a sut i addasu yn briodol

16.

llinellau cyfathrebu rhwng partïon perthnasol

17.

sut i weithio o fewn yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol gan gynnwys gofynion diogelu ac amddiffyn plant

18.

sut i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant trwy weithio gydag unigolion

19.

sut i fodelu ymddygiad cymdeithasol-fuddiol wrth weithio gydag unigolion

Hyrwyddo buddiannau unigolion yn y gymuned

Datblygwyd gan	Skills for Health
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2025
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2030
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFJBA17
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Cyfiawnder Ieuencid, Gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuencid, Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc
Cyfres/Set	Cyfiawnder Ieuencid
Geiriau Allweddol	Asesiad a arweinir gan risg; asesu; rhwydwaith, teulu, ymddygiad, cymorth